



CWTSH MYRDDIN

Rhifyn – 23.03.2016

Baner werdd i Fro Myrddin

Llongyfarchiadau i'r ysgol ac aelodau'r Pwyllgor Eco am dderbyn gwobr **Y Faner Werdd**. Mae aelodau'r Pwyllgor Eco a'u hathrawon wedi bod yn brysur yn ystod yr wythnosau a'r misoedd diwethaf yn sicrhau bod Bro Myrddin yn ysgol eco gyfeillgar.



O Sir Gar i Sir y Fflint

Ar ddiwrnod braf o wanwyn Dydd Mercher 16eg o Fawrth bu Ysgol Bro Myrddin yn cystadlu'n frwd yn Neuadd Pontyberem yn yr Eisteddfod Sir. Cafwyd llwyddiant ysgubol gydag amrywiaeth o gystadlaethau. Y canlynol, felly, fydd ar daith i'r Gogledd yn ystod gwyliau Sulgwyn i gynrychioli Bro Myrddin yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn y Fflint. Diolch yn fawr iawn i'w hyfforddwyr a dymuniadau gorau i bawb.

Dawns Stepio i Ferched BI 7-9 - Betsan Campbell
Unawd chwythbrennau BI 7-9 - Millie Hughes Butterfield
Unawd Merched BI 7 --9 - Alaw Evans
Unawd Alaw Werin BI 7-9 - Elin Fflur Jones
Llefaru Unigol BI 7 -9 - Hanna Medi Davies
Deuawd BI 7-9 - Elin Fflur ac Alaw Evans
Deuawd Cerdd Dant BI 7-9 - Elin Fflur ac Alaw Evans
Parti Bechgyn BI 7-9
Parti Merched BI 7-9
Grŵp Llefaru BI 7-9
Parti Cerdd Dant BI 7-9
Unawd Cerdd Dant BI 10 a dan 19 - Sioned Beynon
Unawd Alaw Werin BI 10 a dan 19 - Mared Owen
Llefaru Unigol BI 10 a dan 19 - Elen Fflur Davies
Deuawd BI 10 a dan 19 - Elin Wyn James a Gwenno Griffiths
Triawd/Pedwarawd Cerdd Dant - Mared, Phoebe a Hannah
Côr Merched BI 10 a dan 19
Côr Bechgyn BI 10 a dan 19
Côr Gwerin 3 llais
Côr Cerdd Dant
Grŵp Llefaru BI 10 a dan 19

Ysgolion Sir Gaerfyrddin yn cael eu dewis i achub pryfed peillio Prydain

Mae disgyblion ysgol Bro Myrddin yn fwrlwm o lawenydd ar ôl darganfod yn ddiweddar eu bod wedi cael eu dewis i helpu i amddiffyn y boblogaeth sy'n prnhau o bryfed peillio Prydain.

Fel pedair o'r ysgolion a ddewiswyd ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan mae disgyblion Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin a thair ysgol gynradd sy'n ei bwydo sef Nantgaredig, Llangynnwr a Glan y Fferi wedi cael eu

dewis gan y rhaglen 'Polli:Nation' i weddnewid eu manau awyr agored i fod yn gynefinoedd beillio-gyfeillgar, gyda chefnogaeth yr elusen tiroedd ysgol genedlaethol - Learning through Landscapes.

Wedi cyflwyno cais ar y cyd fel 'clwstwr' ysgol yn ôl ym mis Hydref 2015, cafodd Bro Myrddin ei enwi fel tri allan o 260 ar draws y Deyrnas Unedig sydd wedi cael ei dewis i gymryd rhan yn y rhaglen unigryw hon. Fel rhan o'r cais bu'n rhaid i'r ysgol ddangos ei chynllun gweithredu a'u hymrwymiad i'r prosiect. Dros gyfnod o dair blynedd, bydd pob un o'r ysgolion yn awr yn cael eu cefnogi gan Polli:Nation - yr elusen tiroedd ysgol cenedlaethol sy'n gyfrifol am y prosiect.



Gan gysylltu â Strategaeth Peillio Cenedlaethol, bydd yr ysgolion yn awr yn archwilio sut y gallent dyfu mwy o flodau, llwyni a choed, gadael i gynefinoedd dyfu'n wyllt, peidio â tharfu ar nythod pryfed a meddwl yn ofalus am ddefnyddio plaladdwyr. Unwaith y bydd y prosiect ar y gweill, bydd yr ysgolion hefyd yn cael y cyfle i gyfrannu data hanfodol mewn arolwg beillio ledled y Deyrnas Unedig o OPAL Imperial College Llundain. Erbyn hynny, bydd y plant, athrawon ac aelodau o'r gymuned yn meddu ar yr holl offer a'r sgiliau angenrheidiol i helpu gwyddonwyr i ddatblygu dealltwriaeth gywir o gyflwr presennol y cynefinoedd i bryfed sy'n peillio ym Mhrydain, a'r potensial i ddatblygu hyn ymhellach. Nodwyd gan bennaeth Bro Myrddin, Dr Llinos Jones - "Rydym wrth ein boddau i fod yn rhan o'r prosiect hwn ac mae'n anrhydedd i fod yn gwneud cyfraniad at waith ymchwil pwysig o'r fath. Nid yn unig mae Polli:Nation yn cynnig cyfle gwych i ddatblygu ein hamgylchedd ein hunain i gynorthwyo poblogaeth sy'n dirywio, mae hefyd yn cynnig llwyfan perffaith i ystyried ein hamgylchedd a phlaladdwyr ar raddfa fyd-eang - tra hefyd yn cynnwys aelodau o'r gymuned leol. "

Cafodd y prosiect ei ddatblygu gan 'Learning through Landscapes' ar y cyd â phartneriaid yn y sector Cyngor Astudiaethau Maes, Buglife, Butterfly Conservation, OPAL Imperial College, Llundain, Prifysgol Stirling, Bumblebee Conservation Trust a'r Gwirfoddolwyr Cadwraeth. Yn ôl David Hodd, Rheolwr y Prosiect o 'Learning through Landscapes' - "Mae'n hanfodol ein bod yn mynd i'r afael â'r gostyngiad yn nifer y pryfed sy'n peillio ym Mhrydain, a bydd cefnogaeth ysgolion a chymunedau yn Sir Gaerfyrddin yn sicr yn cyfrannu at lwyddiant cyffredinol y rhaglen genedlaethol. Rydym yn edrych ymlaen at weld canlyniadau terfynol y prosiectau ysgol!"